**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

**TRWYDDED GWEITHREDWR CERBYD LLOGI PREIFAT**

**ATODLEN AMODAU**

1. **Amodau Trwydded Gweithredwr Cerbyd Llogi Preifat**

A. **Amodau Cyffredinol:**

(i) Caiff ei ystyried fod pob contract ar gyfer llogi cerbyd preifat yn cael ei wneud gyda'r Gweithredwr boed ef neu hi wedi derbyn yr archeb am y cerbyd ai peidio a boed ef neu hi yn darparu'r cerbyd ai peidio.

(ii) Bydd y Gweithredwr, pe byddai'n ofynnol gan y person sy'n gwneud archeb am logi preifat:

(a) Yn cytuno ar y pris ar gyfer y daith sydd wedi ei harchebu neu
(b) Yn darparu amcanbris ar gyfer y pris hwnnw

(iii) Bydd pob Gweithredwr ar gyfer Cerbyd Llogi Preifat, sy'n derbyn archeb Cerbyd Llogi Preifat ar gyfer amser a lle penodol, yn rhoi'r archeb i yrrwr cerbyd o'r fath, gan ganiatáu digon o amser i'r cerbyd gyrraedd yn brydlon.

(iv) Bydd y Gweithredwr yn cynhyrchu ei drwydded / ei thrwydded ar gais i unrhyw swyddog awdurdodedig neu heddwas.

(v) Bydd y Gweithredwr yn sicrhau fod pob Cerbyd Llogi Preifat a gaiff ei weithredu ganddo/ganddi yn unol â'r drwydded hon yn cynnwys Tystysgrif Yswiriant neu nodyn yswiriant sy'n digolledi perchennog y cerbyd dan sylw oddi fewn i ddarpariaethau Deddf Traffig Ffordd 1972 (Rhan IV) ar gyfer cludo teithwyr am log neu dâl.

(vi) Bydd y Gweithredwr yn cynhyrchu ei dystysgrif / ei thystysgrif yswiriant mewn perthynas â cherbydau sydd berchen iddo/iddi ynghyd ag atodlenni sy'n berthnasol i'r holl gerbydau o'r fath ar gais, i unrhyw swyddog awdurdodedig neu heddwas.

(vii) Bydd y Gweithredwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am unrhyw newid cyfeiriad (yn cynnwys unrhyw gyfeiriad y mae ef / hi yn gweithredu ei fusnes/ ei busnes oddi wrtho fel Gweithredwr) yn ystod cyfnod y drwydded ymhen saith niwrnod ar ôl i newid o'r fath ddigwydd.

(viii) Ni chaiff unrhyw weithredwr newid y cyfeiriad y mae ef / hi yn gweithredu oddi wrtho heb ddod i gytundeb ysgrifenedig â'r Cyngor yn gyntaf a bod holl ofynion y drwydded yn cael eu bodloni.

(ix) Ymhen saith niwrnod bydd y Gweithredwr yn datgelu yn ysgrifenedig i'r Cyngor, fanylion am unrhyw euogfarn a roddwyd arno/ arni (neu os yw'r Gweithredwr yn

Gwmni neu'n Bartneriaeth, am unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y Drwydded.

(x) Bydd y Gweithredwr yn cadw copïau o drwyddedau'r holl yrwyr cerbydau llogi preifat tra eu bod yn ei gyflogaeth neu'n gweithredu drwy ei drwydded a bydd yn cynhyrchu'r un fath ar gyfer archwiliad gan swyddog awdurdodedig neu heddwas.

**B. <u>Safon y Gwasanaeth:</u>**

(xi) Bydd y Gweithredwr yn cadw unrhyw safle y mae'r Gweithredwr yn ei ddarparu ac y caiff y cyhoedd fynediad ato, yn lân, wedi ei wresogi'n ddigonol, ei awyru a'i oleuo'n ddigonol, boed at ddibenion archebu neu aros.

(xii) Bydd y Gweithredwr yn sicrhau fod gan unrhyw ardal aros a ddarperir gan y Gweithredwr ddigon o le i eistedd.

(xv) Bydd y Gweithredwr yn sicrhau fod unrhyw adnoddau ffôn ac unrhyw offer radio a ddarperir yn cael eu cynnal mewn cyflwr iach a bod unrhyw ddiffygion yn cael eu hatgyweirio'n brydlon.

(xvi) O ran unrhyw ganolfan weithredu (adeiladau) a benodir ar y drwydded sy'n hygyrch i aelod o'r cyhoedd, bydd y gweithredwr yn cadw polisi yswiriant ar gyfer risg atebolrwydd y cyhoedd sy'n darparu indemniad o £5,000,000 o leiaf, mewn perthynas ag unrhyw un digwyddiad.

(xvii) Bydd y gweithredwr, ar ôl derbyn unrhyw gwyn, yn darparu cyfeiriad post llawn Adran Drwyddedu'r Cyngor i'r sawl sy'n cwyno.

(xviii) Bydd y Gweithredwr yn gofyn i unrhyw berson sydd wedi meddwi neu sy'n ymddwyn mewn modd anhrefnus, adael yr adeilad mewn perthynas â'r drwydded sydd mewn grym. Os bydd unrhyw berson o'r fath yn methu â gadael ar ôl derbyn cais o'r fath, bydd y Gweithredwr yn ffonio'r swyddfa heddlu lleol er mwyn ceisio cael cymorth.

(xix) Bydd y Gweithredwr ar bob adeg yn cadw copi o'r amodau hyn yn unrhyw adeilad a ddefnyddir ganddo/ganddi at ddibenion busnes llogi preifat, a bydd yn sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio gan deithwyr arfaethedig a gwir deithwyr sy'n talu.

(xx) Bydd y Gweithredwr, yn ôl ei allu / ei gallu fel Gweithredwr ac yn ddiragfarn i unrhyw atebolrwydd arall a osodir o dan Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn ymdrechu ei orau i sicrhau fod gyrwyr cerbydau o dan berchnogaeth neu a reolir mewn cysylltiad â'r Gweithredwr yn gweithredu a pherfformio amodau ei Drwydded Gyrrwr Llogi Preifat a bydd cerbydau yn cydsynio ag amodau'r Drwydded Llogi Cerbyd Preifat.

**C. <u>Cadw Cofnodion</u>**

1. Bydd y Gweithredwr yn cadw yn ei adeiladau, gofrestr briodol mewn llyfr wedi ei rwymo, ac ynddo bydd ef/ hi yn nodi mewn modd cronolegol ar gyfer pob cerbyd sydd yn ei berchnogaeth, fanylion yr holl gerbydau y mae'n eu gweithredu, gan gynnwys y canlynol:-

   i) Rhif plât y drwydded;

   ii) Y rhif cofrestru;

   iii) Dyddiad cynhyrchu;

   iv) Blwyddyn gyntaf cofrestru;

   v) Dyddiad y gwnaeth y gweithredwr brynu'r cerbyd;

   vi) Enw'r gwneuthurwr a'r model ynghyd â maint yr injan;

   vii) lliw;

   viii) Rhif siasi/ rhif injan;

   ix) A oes mesurydd tacsi wedi ei osod;

   x) Addasiadau o ran dyluniad neu adeiladwaith;

   xi) Enw a chyfeiriad y perchennog;

   xii) Enw(au) a chyfeiriad(au) y gyrrwr/gyrwyr ar gyfer pob cerbyd;

   xiii) Rhif bathodyn/bathodynnau'r gyrrwr/gyrwyr;

   xiv) Dyddiad gwerthu neu ddinistrio;

   Bydd y cofnodion y cyfeirir atynt uchod yn cael eu cadw am gyfnod o ddim llai na chwe mis neu gyfnod o'r fath sy'n hirach os mai dyna sy'n digwydd, drwy hysbysiad ysgrifenedig sy'n ofynnol gan Swyddog Awdurdodedig o'r Cygnor a bydd y cofnodion hyn yn cael eu cynhyrchu ar gyfer unrhyw Swyddog Awdurdodedig neu Heddwas yn ôl cais.

2. Bydd y Gweithredwr yn nodi mewn llyfr addas, gyda thudalennau wedi eu rhifo'n olynol, fanylion pob archeb llogi preifat, a bydd y manylion yn cael eu hychwanegu'n gronolegol yn y llyfr ar adeg yr archebu a bydd yn cynnwys y canlynol:-

   i) Dyddiad ac amser pob archeb;

   ii) Sut y cafodd yr archeb ei gwneud, (hynny yw galwad ffôn neu alwad personol ac yn y blaen);

iii) Y man casglu;

iv) Y cyrchfan;

v) Enw’r llogwr (oni bai fod y cwsmer yn dal y wybodaeth honno yn ôl);

vi) Rhif Plât Trwydded Llogi Preifat y cerbyd a ddefnyddiwyd;

vii) Manylion y gyrrwr;

viii) Sylwadau (yn cynnwys manylion am unrhyw is-gontractio).

NODER
.

- Rhaid i unrhyw arwydd galw a ddyrannwyd i yrrwr neu i gerbyd ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y cofnodion archebu gael ei gofnodi wrth ymyl pob mynediad ar gyfer cerbyd neu yrrwr.

- Bydd y cofnodion y cyfeirir atynt uchod yn cael eu cadw am gyfnod o ddim llai na chwe mis neu’r fath gyfnod hirach fel y gallai fod, drwy hysbysiad ysgrifenedig yn ofynnol gan Swyddog Awdurdodedig o’r Cyngor.

- Caiff y cofnodion dywededig eu cynhyrchu, ar gais, i unrhyw Heddwas neu Swyddog Awdurdodedig o’r Cyngor.

- Os bydd system gyfrifiadurol yn cael ei ddefnyddio, rhaid i’r Gweithredwr fod yn gallu darparu copi o’r manylion hyn mewn print. Dylai’r Gweithredwr hefyd sicrhau ei fod yn ddeiliad Trwydded Diogelu Data priodol.

**D. <u>Ataliad, Diddymiad neu Wrthod Trwydded Gweithredwr</u>**

(1) :- Mae’n bosibl i’r Cyngor benderfynu atal, ddiddymu neu beidio ag adnewyddu unrhyw Drwydded Gweithredwr am unrhyw reswm rhesymol yn cynnwys:

(i) Unrhyw drosedd o dan neu ddiffyg cydsynio â, darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

(ii) Unrhyw ymddygiad gan y Gweithredwr sy’n ymddangos i’r Cyngor i ddatgan ei fod ef/ ei bod hi yn anaddas i fod yn ddeiliad Trwydded Gweithredwr;

(iii) Pan fo newid materol berthnasol i amgylchiadau’r Gweithredwr neu i’r sail y cafodd y drwydded ei chaniatáu;

(iv) Unrhyw achos arall rhesymol.

(v) Os oes gwybodaeth ffug neu anghyflawn wedi ei darparu er mwyn cael trwydded, rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio'r pwerau uchod yn ogystal ag erlyn mewn perthynas â'r drosedd a gyflawnwyd.

(2) Bydd unrhyw berson sydd yn troseddu yn erbyn unrhyw un o ddarpariaethau'r amodau hyn, neu Ran II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, nad oes cosb mewn perthynas â hi wedi ei fynegi'n benodol, yn atebol yn dilyn euogfarn ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**E. <u>Nodiadau Canllaw Ychwanegol</u>**

(1) Rhaid i unrhyw gais am adnewyddu trwydded gael ei wneud cyn y dyddiad dod i ben i sicrhau parhad. Nid oes yna gyfnod o ras awtomatig. Mae'n drosedd gweithredu cerbydau llogi preifat didrwydded.

(2) Mae gan y Cyngor y pŵer i atal, diddymu neu wrthod adnewyddu trwydded ar sail gadarn. Pan fo trwydded wedi ei derbyn ar ôl rhoi gwybodaeth ffug neu anghyflawn, caiff ystyriaeth ei rhoi i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ogystal ag erlyn am y drosedd a gyflawnwyd.

- Gall unrhyw berson sy'n cael ei dramgwyddo gan benderfyniad o du'r Cyngor i atal, diddymu neu adnewyddu Trwydded Gweithredwr apelio i'r Llys Ynadon oddi fewn i ddau ddeg un diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad.

(3) Caiff gweithredwyr eu hatgoffa ei fod yn drosedd i ddefnyddio gyrwyr didrwydded neu gerbydau didrwydded. Felly, dylen nhw wirio fod gan yrrwr drwydded gyfredol oddi wrth y Cyngor a bathodyn, a bod y cerbyd wedi ei drwyddedu'n gywir a bod plât arno. Bydd methiant i wneud hyn yn arwain at bosibilrwydd o erlyn y Gweithredwr.

(4) Yn rhinwedd Adran 46(1)(d) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, ni chaiff unrhyw berson, mewn ardal o reolir, weithredu unrhyw gerbyd fel cerbyd llogi preifat heb fod trwydded gyfredol ganddo o dan Adran 55 y Ddeddf ddywededig (Trwydded Gweithredwr Cerbyd Llogi Preifat).

(5) Dylai unrhyw Ymgeisydd am Drwydded Gweithredu Llogi Preifat sicrhau ei fod ef/ ei bod hi yn cydsynio â'r gofynion statudol perthnasol. Yn benodol, dylai'r Ymgeisydd gael y caniatâd cynllunio angenrheidiol ar gyfer yr adeiladau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r busnes o weithredu cerbydau llogi preifat ac ni ddylai ymgysylltu na chaniatáu gweithredu o'r fath nes bod y caniatâd cynllunio angenrheidiol wedi ei gael, ble y bo'n gymwys, a bod yr holl ofynion mewn perthynas ag Atebolrwydd y Cyhoedd a'r Cyflogwr, rheoliadau tân, swyddfeydd ac adeiladau bach ac yn y blaen, fel y sydd yn angenrheidiol, wedi eu bodloni.

(6)

(7) Caiff Trwydded Gweithredwr Llogi Preifat ei chyflwyno at ddibenion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac nid yw'n rhoi caniatâd o dan unrhyw ddeddfiad arall , er enghraifft Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd ydyw i ymholi gydag awdurdodau perthnasol eraill a yw caniatâd o'r fath yn ofynnol mewn amgylchiadau unigol. Wrth ystyried unrhyw gais, bydd y Cyngor am gymryd i ystyriaeth addasrwydd yr adeilad yr ydych yn bwriadu gweithredu oddi wrtho a'r effaith y gallai'r defnydd yr ydych yn bwriadu ei wneud ei gael ar yr amgylchedd lleol - yn enwedig i breswylwyr eiddo cymdogol. Am y rheswm hwn, mae'n ofynnol eich bod yn datgan ar y ffurflen gais a ydych yn bwriadu gwneud darpariaeth yn yr eiddo / adeilad ar gyfer derbyn aelodau o'r cyhoedd a hefyd ddweud a yw caniatâd cynllunio wedi ei ganiatáu ar gyfer defnyddio'r eiddo mewn cysylltiad â busnes llogi preifat. Tra bo'r broses drwyddedu a chynllunio mewn perthynas â gweithredwyr tacsi a llogi preifat yn gwbl ar wahân ac yn codi materion gwahanol, y mae'n bwysig eich bod yn sicrhau fod unrhyw ganiatâd wedi ei dderbyn. Os nad yw caniatâd o'r fath wedi ei dderbyn, dylech gysylltu ag Adran Gynllunio'r Cyngor, yn Uned 5, Parc Busnes Triongl, Merthyr Tudful, CF48 4TQ (Rhif ffôn: 725000). Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweddnewid a Lle yn eu hysbysu bob tro y byddwch chi yn gwneud y cais hwn.

(8) Caiff ei ystyried fod unrhyw hysbysiad gofynnol i'w wasanaethu gan y Cyngor o dan y Drwydded hon neu o dan unrhyw un o ddarpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1976 a phob deddfwriaeth berthnasol arall, wedi cael ei wasanaethu'n gywir os cafodd ei wasanaethu'n bersonol arno fe/ arni hi, neu ei anfon ato fe / ati hi drwy bost a dalwyd yn barod neu ei adael yn y cyfeiriad olaf y gwyddys amdano i ddeiliad y drwydded.

(9) Cymdeithas Llogi Preifat

i) Gall gweithredwyr ffurfio Cymdeithas a rhaid iddynt ddarparu copi o Gyfansoddiad y Gymdeithas honno i'r Swyddog Trwyddedu.

ii) Rhaid i'r Gymdeithas roi gwybod i'r Swyddog Awdurdodedig yn ysgrifenedig ac aelodau'r Gymdeithas.

Deil y Cyngor ar yr hawl i ddiwygio neu ychwanegu at unrhyw un o'r amodau blaenorol a chaiff hysbysiad o hynny ei wasanaethu gan bob trwydded.